

Embargo: 00.01 6 Ebrill 2010

GWELEDIGAETH ARCHDDERWYDD AR GOF
AR GADAIR EISTEDDFOD YR URDD

Teulu'r diweddar Archdderwydd Dic Jones sy'n rhoi cadair Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion eleni a hynny er cof amdano.

Ychydig wythnosau cyn ei farw bu'r Archdderwydd yn trafod ei weledigaeth ar gyfer y gadair gyda'r gwneuthurwr a ffrind mawr iddo, Glan Rees. Bellach, mae'r gadair wedi ei chreu a gweledigaeth yr Archdderwydd yn amlwg mewn cyfres o ddelweddau trawiadol.

"Roedd Dic yn bendant iawn mai cadair syml, fodern ddylai hon fod," medd Glan sy'n byw yn Nhreftraeth ac yn gyn-brifathro Ysgol Bro Ingli. "Ar yr olwg gyntaf, mae hon yn gadair syml ond o edrych yn fwy gofalus, fe welwch ddelweddau cryf a phendant iawn; ffrwyth sgwrs gyda Dic, Jean ei wraig a minnau rhyw fis cyn i ni golli Dic.

"Y ddelwedd amlycaf yw'r un o ffenestr - sydd wedi ei wneud o wydr lliw – a honno'n edrych i'r dyfodol. Mae'r gwydr yn dangos delweddau amaethyddol, megis tywysen yn ogystal ag arfordir Sir Aberteifi, oedd oll mor bwysig i Dic.

"Gofynnodd Dic i mi ddangos y dywysen wedi ei phlygu, a hynny i ddangos ei barch mawr ef at y beirdd ifanc. Roedd yn aml yn dweud wrtha'i gymaint o barch yr oedd ganddo at y beirdd ifanc a'r hyn y maent yn ei gyflawni. Ac ar gefn y gadair, mae cwpled o eiddo Dic o'i gerdd, Y Gamp. Mynodd mai ar gefn y gadair y byddai'r geiriau yma ac nid ar y blaen," meddai Glan oedd yn mynychu'r un Aelwyd yr Urdd â Dic a Jean yn Aberporth dan arweinyddiaeth Mr a Mrs Tegryn Davies.

"Mae'r gadair wedi ei gwneud o barch a chariad at Dic," medd Jean, gweddw Dic Jones. "Roedden ni'n ffodus fod Glan wedi dod i'n gweld pan ddaeth e. Roedd Dic yn ei bethe ac fe gawsom ni drafod y steil a'r delweddau a dwi'n gwybod y bydde Dic wrth ei fodd efo'r gadair orffenedig."

Fe roddir y gadair am gyfansoddi cerdd gaeth neu rydd, heb fod dros 100 llinell ar y testun, Tonnau, ac fe gynhelir y seremoni ddydd Iau, 3 Mehefin 2010 am 2.30pm. Y beirniad yw Gwenallt Llwyd Ifan a Fflur Dafydd a Meistr y ddefod fydd Gareth James. Bydd wyrion Dic Jones, Bedwyr, Peredur, ac Ynyr Lloyd Jones hefyd yn rhan o'r seremoni.

"Rydym yn ddiolchgar iawn i deulu'r diweddar Archeddrwydd Dic Jones am roddi'r gadair yma i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, 2010 er cof amdano," medd Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru. "Mae'n braf ein bod yn gallu dathlu cyfraniad Dic Jones i'w ardal a'i wlad tra bod yr Eisteddfod yn y fro oedd yn golgyu cymaint iddo. Dic Jones yw'r unig un i ennill Cadair Eisteddfod yr Urdd bum gwaith yn olynol a braf fydd cydnabod y gamp honno ymysg yr anrhydeddau eraill a ddaeth i'w ran fel bardd yn Llanerchaeron fis Mehefin."

Diwedd

Nodiadau i Olygyddion
Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Non Tudur Williams ar nontudur@urdd.org neu 07968 446369

Y gwpled o waith Dic Jones sy'n ymddangos ar gefn y gadair yw
"A wêl y gamp geilw i go' swyn y Gymdeithas honno," Y Gamp gan Dic Jones

- Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion 2010 yn Llanerchaeron, ger Aberaeron rhwng 31 Mai a 5 Mehefin
- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.

CEREDIGION
20 10